

Sut ydym yn gosod ein Cartrefi

Canllaw i Gynllun Dyrannu Tai Caerdydd



<p>1. Beth yw'r Cynllun Dyrannu Tai?</p>	<p>Cyfres o reolau a chanllawiau yw Cynllun Tai Caerdydd sy'n ein helpu ni i benderfynu pwy all ymuno â'r Rhestr Aros Tai, trefn y Rhestr Aros, a phwy y dylid cynnig cartref iddynt.</p> <p>Mae Cyngor Dinas Caerdydd ynghyd â Cadwyn, Cardiff Community, Hafod, Linc Cymru, Newydd, Taff, Cymdeithas Tai Unedig Cymru a Chymdeithas tai Cymru a'r Gorllewin oll yn defnyddio'r un Rhestr Aros a'r Cynllun Dyrannu i osod eu heiddo yn y ddinas.</p> <p>Mae'r Cynllun yn sicrhau ein bod ni'n helpu'r bobl sydd â'r angen mwyaf yn gyntaf, bod ymgeiswyr yn cael dewis o ran lle maen nhw eisiau byw, a'u bod yn cael cynnig eiddo sy'n addas i'w hanghenion.</p> <p>Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth am ein Cynllun ac yn ateb y cwestiynau y gofynnir yn aml i ni.</p> <p>Mae copi cyflawn o'r cynllun ar gael ar-lein www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Housing/Applying-for-housing/Pages/Applying-for-housing.aspx neu drwy ffonio 029 2053 7131.</p>
<p>2. All unrhyw un wneud cais i ymuno a'r Rhestr Aros Tai?</p>	<p>Gall unrhyw un dros 16 oed ofyn i ymuno â'r Rhestr Aros Tai, ond efallai na fyddwn yn gadael i rai pobl ymuno â'r Rhestr - er enghraifft oherwydd eu hymddygiad gwrthgymdeithasol blaenorol, statws mewnfudo neu rai gollfarnau troseddol.</p> <p>Os ydych chi'n ddigartref, yn cysgu ar y stryd, yn dibynnu ar ffrindiau am wely am y noson neu'n debygol o fod yn ddigartref yn y dyfodol agos dylech gysylltu ag Ymgynghorydd Tai cyn gynted â phosibl drwy ffonio neu ymweld â:</p> <p>Y Ganolfan Dewisiadau Tai Hansen Street (oddi ar Dumballs Road) Caerdydd CF10 5DW Ffon : 029 2057 0750</p>
<p>3. Sut alla i wneud cais am dŷ?</p>	<p>Am gyngor ar eich dewisiadau tai gallwch:</p> <ul style="list-style-type: none"> • alw heibio i un o Hybiau'r Cyngor neu swyddfeydd Cymdeithasau Tai • ffonio 029 2053 7111 neu • defnyddio'r opsiwn ar-lein i ddweud wrthym fod diddordeb gennych mewn ymuno â'r Rhestr Aros yn www.cardiffhousing.co.uk/apply - byddwn yn eich ffonio i siarad am eich opsiynau. <p>Bydd yn eich holi am y lle rydych yn byw ynddo nawr, pwy arall sy'n byw gyda chi, a ph'un a oes gennych unrhyw anghenion tai penodol.</p> <p>Byddwn yn rhoi ffurflen gais i chi ei chwblhau, ac yn gwneud apwyntiad i chi ddod yn ôl i weld ymgynghorydd. Rhowch wybod os oes angen help arnoch gyda'r ffurflen, neu os hoffech gael y ffurflen mewn iaith neu fformat arall.</p> <p>Dylech ddod a'r ffurflen gais wedi'i chwblhau ac unrhyw wybodaeth arall yr ydym wedi gofyn amdani i'r apwyntiad, neu ni allwn barhau gyda'ch cais. Efallai y bydd angen i ni wneud gwiriadau pellach - er enghraifft cael atgyfeiriad gan eich landlord preifat, neu gael rhagor o wybodaeth o ran faint o gyflyrau meddygol sy'n effeithio arnoch chi.</p> <p>Ar ôl i ni gael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom am eich cais byddwn yn penderfynu p'un a allwch ymuno â'r Rhestr Aros, gan ysgrifennu atoch i roi gwybod y penderfyniad.</p>

<p>4. Sut mae'r Rhestr Aros yn gweithio?</p>	<p>Rydym am sicrhau ein bod yn rhoi cartrefi i bobl sydd ag 'angen tai', a bod pobl sy'n byw yng Nghaerdydd yn cael eu helpu gyntaf.</p> <p>Mae angen tai yn cynnwys pethau fel:</p> <ul style="list-style-type: none"> – bod yn ddigartref – cyflwr meddygol sy'n gwaethygu oherwydd eich sefyllfa bresennol – gormod o bobl yn byw yn yr un lle – tan-feddiannu eiddo Cyngor neu Gymdeithas Tai nad yw'n fforddiadwy mwyach oherwydd y rheolau Budd-dal Tai newydd (a elwir treth ystafell wely) – angen symud oherwydd caledi ariannol a achosir gan eich llety presennol – byw mewn cartref anfodddhaol - er enghraifft dim gwres na dŵr poeth <p>I'n helpu ni i sicrhau ein bod ni'n helpu'r bobl hyn yn gyntaf rydym wedi rhannu'r Rhestr Aros yn Fandiau. Os cewch le ar y Rhestr Aros byddwn yn edrych ar eich anghenion tai, ac a oes gennych 'gysylltiad lleol' â Chaerdydd, i benderfynu'r Band y byddwch yn ymuno ag ef. I gael 'cysylltiad lleol', yn gyffredinol mae'n rhaid i chi wedi byw yng Nghaerdydd ers 2 blynedd o leiaf ar yr adeg cyflwyno cais.</p> <p>Mae bandiau A a B i bobl y mae angen tŷ arnynt ac sydd â 'chysylltiad lleol' â Chaerdydd. Pan fo'r angen ar frys (er enghraifft os oes gan ymgeisydd gyflwr meddygol sy'n bygwth ei fywyd a waethygir gan y lle y mae'n byw ynddo ar hyn o bryd), maent yn ymuno â Band A; pan fo'r angen yn llai o frys (er enghraifft os oes gormod o bobl yn y tŷ presennol), maent yn ymuno â Band B.</p> <p>Mae bandiau C a D i bobl y mae angen tŷ arnynt ond sydd <u>heb</u> 'gysylltiad lleol' â Chaerdydd. Mae'r rhai y mae angen ar frys arnynt yn ymuno â Band C; os yw'r angen yn llai o frys, maent yn ymuno â Band D.</p> <p>Mae band E i bobl sydd â 'chysylltiad lleol' â Chaerdydd nad oes angen tŷ arnynt.</p> <p>Mae band F i bobl <u>nad oes</u> ganddynt 'gysylltiad lleol' â Chaerdydd ac nad oes angen tŷ arnynt.</p> <p>Defnyddir yr amser aros i benderfynu ar eich safle yn y Band. Er enghraifft os oes gennych angen brys a'ch bod yn byw yng Nghaerdydd byddwch yn cael eich rhoi yn Band A. Pan fyddwch yn ymuno â'r Rhestr Aros byddwch ar waelod Band A. Y person ar frig Band A yw'r person sydd ag angen tŷ ar frys, sy'n byw yng Nghaerdydd ac sydd wedi bod yn aros hiraf.</p> <p>Cofiwch ein bod ni'n sicrhau ein bod ni'n cynnig cyfran o'n heiddo i denantiaid y Cyngor a Chymdeithasau Tai sydd angen symud i gartref llai, ac i bobl sy'n ddigartref (y mae gennym ddyletswydd cyfreithiol i'w hail-gartrefu)..</p> <p>Mae angen i ni ailgartrefu rhai achosion eithriadol hefyd. Dyma'r ymgeiswyr y mae angen tŷ arnynt <u>ar unwaith</u> ac nid yw hyn yn digwydd yn aml. Fe'u hawdurdodir gan Uwch Swyddog yn y Cyngor neu Gymdeithas Tai.</p>
<p>5. Sut fydda i'n gwybod os ydw i ar y Rhestr Aros?</p>	<p>Ar ôl i ni benderfynu y gallwch ymuno â'r Rhestr Aros byddwn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi. Byddwn yn dweud wrthy ch pa Fand yr ydych yn perthyn iddo.</p>
<p>6. Pa fath o eiddo a gynnigir i mi?</p>	<p>I benderfynu maint yr eiddo sydd ei angen arnoch, rydym yn caniatáu un ystafell wely ar gyfer y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pob cwpl oedolyn • Unrhyw oedolyn arall (16 oed neu'n hŷn)

	<ul style="list-style-type: none"> • Unrhyw ddau blentyn o'r un rhyw dan 16 oed • Unrhyw ddau blentyn dan 10 oed • Unrhyw blentyn arall <p>Bydd math yr eiddo sy'n cael ei gynnig i chi yn dibynnu ar strwythur eich teulu. Mae'r Cyngor a Chymdeithasau Tai yn defnyddio canllawiau sydd ychydig yn wahanol, ond yn gyffredinol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynigir tai gyda dwy ystafell wely neu fwy i deuluoedd sy'n cynnwys plentyn neu blant o flaen teuluoedd heb blant • Ni chynigir y rhan fwyaf o fflatiau a fflatiau deulawr uwch ben y llawr cyntaf i deuluoedd gyda phlant dan 8 oed • Cynigir byngalos, a rhai fflatiau i bobl hŷn neu i bobl anabl. • Cynigir fflatiau un ystafell i oedolion sengl dan 35 oed o flaen ymgeiswyr eraill
<p>7. Beth os oes angen cartref wedi'i addasu arnaf?</p>	<p>Os byddwn yn cytuno bod angen eiddo wedi'i addasu arnoch (ar sail y wybodaeth ar eich cais) byddwn yn rhoi eich enw ar restr aros arall - Rhestr Aros Cartrefi Hygyrch. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau y cynigir cartref sy'n addas i'ch anghenion a'n bod ni'n gwneud y defnydd gorau o eiddo sydd eisoes wedi'i addasu neu y gellir ei addasu.</p>
<p>8. Faint o ardaloedd allaf i eu dewis a lle caf i fy ailgartrefu gyflymaf?</p>	<p>Gallwch ddewis gymaint o ardaloedd o'r ddinas ag y dymunwch ond cofiwch mai dim ond ychydig iawn o eiddo sydd gennym mewn rhai ardaloedd, ac efallai na fydd yr eiddo hyn ar gael yn aml iawn. Yn dibynnu ar eich amgylchiadau, efallai y bydd yn rhaid i chi gynnwys 2 ardal lle mae tai cymdeithasol ar gael yn fwy yn eich dewisiadau – bydd hyn yn helpu i sicrhau eich bod yn cael y cyfle gorau i gael eich ailgartrefu. Byddwn yn dweud wrthyhch os felly y mae.</p> <p>Os byddwn yn derbyn eich cais bydd yr ymgynghorydd Tai yn gallu dweud wrthyhch sawl eiddo o'r maint sydd ei angen arnoch sydd ym mhob ardal, sawl un gafodd ei osod yn y flwyddyn ddiwethaf a faint o ymgeiswyr eraill sy'n disgwyl amdanynt.</p> <p>Gallwch hefyd wneud hyn eich hun drwy ddefnyddio'r Gyfrifiannell Amser Aros ar www.cardiffhousing.co.uk</p>
<p>9. Sut fydda i'n gwybod pan fydd eiddo ar gael i mi?</p>	<p>Gallwch ddewis sut ydych am i ni roi gwybod i chi fod eiddo ar gael. Gallwn anfon e-bost, ffonio neu anfon neges destun atoch - ond byddwn bob amser yn anfon llythyr atoch i gadarnhau unrhyw gynnig.</p> <p>Mae'n bwysig fod gennym rifau ffôn diweddar ar eich cyfer, felly os byddwch yn newid eich rhif rhowch wybod i ni.</p>
<p>10. Faint o gynigion allaf i eu cael?</p>	<p>Os ydych ar y Rhestr Digartrefedd; wedi eich asesu gan y Cyngor fel rhywun sydd angen symud ar unwaith; neu wedi eich gadael yn byw yn eiddo'r Cyngor neu eiddo Cymdeithas Tai, byddwn yn gwneud un cynnig rhesymol o lety. Os byddwch yn gwrthod y cynnig, caiff eich cais ei dynnu o'r Rhestr Aros, felly rydym yn argymhell eich bod yn cael cyngor cyn gwneud penderfyniad.</p> <p>Os oes dyletswydd ar y Cyngor i'ch cynorthwyo dan ddeddf ddigartrefedd, bydd gwrthod y cynnig rhesymol yn golygu y bydd y ddyletswydd ddigartrefedd sydd ar y Cyngor yn dod i ben. Os yw'r Cyngor wedi rhoi llety dros dro i chi, gofynnir i chi adael.</p> <p>Gall ymgeiswyr eraill gael 2 gynnig rhesymol o lety. Os byddwch yn gwrthod y</p>

	<p>cynnig cyntaf byddwn yn gofyn i chi am fwy o fanylion am eich anghenion tai ac yn diweddarau eich cais gyda'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni. Byddwn yn cynnig cyngor ar dai i chi os ydym yn teimlo na allwn fodloni eich anghenion tai. Os byddwch yn gwrthod yr ail gynnig, caiff eich cais ei dynnu o'r Rhestr Aros, ac ni allwch gyflwyno cais eto am 12 mis.</p>
<p>11. Beth os nad wyf yn hapus gyda phenderfyniad ynghylch fy nghais?</p>	<p>Os nad ydych yn hapus gydag unrhyw benderfyniad ynghylch eich cais tai gallwch ofyn am adolygiad. Ffoniwch 029 2053 7131 a gofynnwch am Ffurflen Adolygu.</p> <p>Bydd uwch swyddog nad oedd yn gysylltiedig â'r penderfyniad gwreiddiol yn cynnal yr adolygiad a chewch wybod am y canlyniad yn ysgrifenedig.</p> <p>Os, ar ôl yr adolygiad, nad ydych yn hapus â'r canlyniad, gallwch gwyno drwy broses gwynion y Cyngor.</p>
<p>12. Beth arall allaf i ei wneud i ddod o hyd i gartref?</p>	<p>Efallai yr hoffech feddwl am ddewisiadau tai eraill, megis rhentu gan landlord preifat, neu brynu eich cartref eich hun dan gynllun perchnogaeth cartref a chymorth.</p>

Cysylltiadau Defnyddiol

Pwyntiau cyswllt y Cyngor :	
Ymholiadau Tai Cyngor Caerdydd	029 2053 7131 E-bost: ymholiadautai@caerdydd.gov.uk
Hyb y Llyfrgell Ganolog	Llyfrgell Ganolog Caerdydd, Yr Aes, Caerdydd CF10 1FL
Yr Hyb yn Butetown	Plas Iona, Butetown Caerdydd CF10 5HW
Yr Hyb yn Llanrhymni	Countisbury Avenue, Llanrhymni Caerdydd CF3 5NQ
Yr Hyb yn Llaneirwg	30 Crickhowell Road, Llaneirwg Caerdydd CF3 0EF
Hyb Cymunedol Trelai a Chaerau	Heol Orllewin y Bont-faen, Trelai Caerdydd CF5 5BQ
Hyb Partneriaeth Tredelerch	Llanstephan Rd, Tredelerch, Caerdydd CF3 3JA
Hyb Grangetown	Havelock Place, Grangetown, Caerdydd CF11 6PA
Y Powerhouse	Roundwood, Llanedern Caerdydd CF23 9PN
Os ydych yn ddigartref (neu'n debygol o fod yn ddigartref yn fuan)	
Y Ganolfan Dewisiadau tai, Hansen Street (oddi ar Dumballs Road), Caerdydd CF10 5DW	029 2057 0750

Cymdeithasau Tai yng Nghaerdydd	
Cymdeithas Tai Cadwyn	197 Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 1AJ 029 2049 8898
Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd	Tŷ Callaghan, 50 Meteor Street, Adamsdown, Caerdydd, CF24 0HE 029 2046 8490
Cymdeithas Tai Hafod	76 Heol Maes Eirwg, Llaneirwg Caerdydd CF3 0JZ 029 2067 5800 Prif Swyddfa 029 2077 9841 Swyddfa Llaneirwg
Cymdeithas Tai Linc Cymru	387 Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 1GG 0800 072 0966 Rhadffon o linell dir 0300 123 1134 cost safonol o ffôn symudol
Cymdeithas Tai Newydd	Tŷ Cadarn, 5 Village Way Tongwynlais CF15 7NE 0303 040 1998
Cymdeithas Tai Taf	307-315 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen, Treganna Caerdydd CF5 1JD 029 2025 9100 0800 121 6064 Rhadffon o linell dir
Cymdeithas Tai Unedig Cymru	Y Lanfa, St Clair Court, West Bute Street, Caerdydd, CF10 5FT 029 2085 8100 0800 294 0195 Rhadffon o linell dir
Cymdeithas Tai Cymru a'r Gorllewin	3 Alexandra Gate, Ffordd Pengam, Tremorfa, Caerdydd CF24 2UD 029 2041 5300 0800 052 2526 Rhadffon o linell dir